CYNGOR BRO MORGANNWG
GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIO) (RHIF 7) 2022

1. Hysbysir drwy hyn bod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn diwygio ac yn rhoi'r cyfyngiadau parcio a nodir yn yr Atodlenni isod ar waith.
2. Mae modd gweld manylion llawn y cynigion, gan gynnwys copi o'r Gorchymyn arfaethedig, a Chynllun Rhif T/22/43/ON ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/legal_notices/Legal-Notices.aspx a raid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a all fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF959)
3. yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **Dydd Gwener 19 Awst 2022** a rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.
4. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:
Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

Ychwanegu atodlen AV53 at y map
Cynnig Gwahardd Aros, Llwytho a Dad-lwytho ar Unrhyw Adeg
Jewel Street Y Barri
Ar ochr y de-ddwyrain o'r gyffordd â Lower Pyke Street tua'r gogledd-ddwyrain am 10 metr.
Ar ochr y gogledd o'r gyffordd â Lower Pyke Street tua'r gogledd-ddwyrain am 10 metr.
Lower Pyke Street Y Barri
Ar ochr y gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Jewel Street tua'r gogledd-orllewin am 10 metr.
Ar ochr y gogledd o'r gyffordd â Jewel Street tua'r de-ddwyrain am 10 metr.

Dyddiedig 28 Gorffennaf 2022.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA